# Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol - 14 Mawrth 2002

**Cynigion a gyflwynwyd ar 7 Mawrth 2002**

**Y Ddadl Fer**

**NDM988 Janice Gregory (Ogwr);** Cyllid Cymunedol - Datgloi ein Potensial

**NDM989 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghori ar ddiwygio Gweithdrefn Gwyno'r GIG;

2. Yn cydnabod y bydd y canlyniad yn arwain at ddiwygiadau a fydd yn ymgorffori'r egwyddorion a ganlyn:
a) datrys cymaint o gwynion â phosibl yn lleol
b) gwneud y broses yn un gyflymach ac yn un fwy annibynnol
c) rhoi digon o gymorth i bobl sydd am wneud cwyn ac i'r rheini y gwneir cwyn yn eu herbyn
d) sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn dysgu oddi wrth gwynion a wneir yn ei erbyn

3. Yn cymeradwyo bwriad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lunio cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno gweithdrefn gwyno ddiwygiedig erbyn mis Ebrill 2003, (ac i adrodd ymhellach i'r Cynulliad Cenedlaethol)

*Mae copi o'r ymatebion i'r ymgynghori ar ddiwygio Gweithdrefn Gwyno'r GIG ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.*

**NDM990 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn cymeradwyo Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau, Lwfansau etc) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2002.

**Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 11 Mawrth 2002**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM989**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ddiwedd y cynnig, ychwaneger pwynt newydd:

Yn credu y bydd gan Gynghorau Iechyd Cymuned ran allweddol i'w chwarae mewn unrhyw weithdrefn gwyno newydd o fewn y GIG

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 2.c), ychwaneger:

" , gan gynnwys rhoi mwy o rôl i Gynghorau Iechyd Cymuned i gynrychioli cleifion trwy'r broses gwynion."

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 2.d), ychwaneger:

" , ac y bydd cofrestr Cymru gyfan o hawliadau esgeulustod clinigol, o'i chwblhau ar fyrder, o gymorth i hynny."

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

" Yn nodi'r costau blynyddol aruthrol a ysgwyddir gan y GIG yn sgil hawliadau esgeulustod clinigol a bod taliadau ariannol blynyddol a'r rhagolygon ar gyfer costau hawliadau o'r fath bedair gwaith yn uwch nag oeddynt bedair blynedd yn ôl."